Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Elin Jones AC

Y Llywydd

17 Ebrill 2019

Annwyl Elin,

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor Cyllid ar 4 Ebrill 2019 i drafod goblygiadau ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Yn ystod y sesiwn gofynnais a oeddech chi'n bwriadu i'r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu drwy gyllideb Comisiwn y Cynulliad neu fel taliad uniongyrchol drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Yn eich ateb dywedasoch:

> "Dyw ariannu uniongyrchol o'r Comisiwn Etholiadol o'r consolidated fund ddim yn bosib."

Ychwanegodd eich swyddog, Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol:

> "Does gennym ni ddim y gallu i ddeddfu i ganiatáu iddyn nhw dderbyn arian yn uniongyrchol o'r gronfa gyfunol."

Fel y gwyddoch, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi pasio'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yn ddiweddar, sy'n Fil anllywodraethol, sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer costau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, a darparodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 (xi) i nodi ei farn fod y tâl yn briodol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro'r sylw a wnaed gan eich swyddog mewn perthynas â'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) nad oes gan Gomisiwn y Cynulliad "y gallu i ddeddfu" ar gyfer taliad uniongyrchol i'r Comisiwn Etholiadol o Gronfa Gyfunol Cymru, gan nad yw'n glir a yw'r gallu hwn yn cyfeirio at y cymhwysedd deddfwriaethol yn benodol mewn perthynas â Chomisiwn y Cynulliad yn deddfu neu ryw gyfyngiad arall.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 3 Mai 2019 er mwyn galluogi'r Pwyllgor Cyllid i ystyried y wybodaeth hon cyn iddo gyflwyno adroddiad.

Yn gywir,

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid